OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1064

# Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

**Caffael cyhoeddus**

**18.**—(1) Pan fo awdurdod sy'n awdurdod contractio yn bwriadu gwneud cytundeb perthnasol ar sail y cynnig mwyaf manteisiol yn economaidd, rhaid iddo roi sylw dyladwy i'r cwestiwn a ddylai'r meini prawf ynglŷn â dyfarnu gynnwys ystyriaethau sy'n berthnasol i'r modd y mae'n cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

(2) Pan fo awdurdod sy'n awdurdod contractio yn bwriadu pennu amodau ynglŷn â chyflawni cytundeb perthnasol, rhaid iddo roi sylw dyladwy i'r cwestiwn a ddylai'r amodau gynnwys ystyriaethau sy'n berthnasol i sut mae'n cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i “awdurdod contractio”, “cytundeb fframwaith” a “contractau cyhoeddus” yr un ystyr â (“*contracting authority*”), (“*framework agreement*”) a (“*public contracts*”) yn y drefn honno yn y Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus(**1**); ac

ystyr “cytundeb perthnasol” (“*relevant agreement*”) yw contract cyhoeddus sydd wedi ei ddyfarnu neu gytundeb fframwaith sydd wedi ei gwblhau a'r naill neu'r llall yn un sy'n cael ei reoleiddio gan y Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus.

(**1**) Mae'r term cyfatebol Saesneg (“Public Sector Directive”) wedi ei ddiffinio yn adran 155(3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15).